Cynllun Cyhoeddi

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

1. Ein Cynllun Cyhoeddi

2. Sut rydym yn darparu gwybodaeth

3. Y taliadau am wybodaeth

4. Os oes gennych gŵyn

5. Ceisiadau am wybodaeth

Os oes arnoch angen y cynllun hwn neu unrhyw wybodaeth yr ydym yn ei chyhoeddi ar ffurf arall, cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data, Adeilad 14, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB, neu ffonio 01267 246108 neu anfon ebost at foia@carmarthenshire.gov.uk

1. Ein cynllun cyhoeddi

Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn ymrwymo Cyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn, yn rhan o'n gweithgareddau busnes arferol. Rhestrir y math o wybodaeth sy'n cael ei gwmpasu gan y cynllun isod.

Pwy ydym ni a beth yw ein gwaith ni.

Gwybodaeth, lleoliadau a chysylltiadau am y sefydliad.

Faint rydym yn ei wario a sut.

Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a gwariant amcanol a gwirioneddol, caffael, contractau ac archwiliadau ariannol.

Beth yw ein blaenoriaethau a pha mor dda yr ydym yn gweithredu.

Strategaethau a chynlluniau, gwybodaeth am berfformiad, archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau.

Sut rydym yn gwneud penderfyniadau.

Prosesau gwneud penderfyniadau a chofnodion penderfyniadau.

Ein polisïau a'n gweithdrefnau.

Protocolau, polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau.

Rhestrau a chofrestrau.

Gwybodaeth y mae'n rhaid ei chadw mewn cofrestrau yn ôl y gyfraith, a rhestrau a chofrestrau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r Cyngor.

Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig.

Gwybodaeth am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu gan gynnwys Gwasanaethau'r Cyngor, taflenni, datganiadau i'r wasg a llythyrau newyddion.

Yn gyffredinol, nid yw'r dosbarthiadau o wybodaeth yn cynnwys:

- Gwybodaeth y mae'r gyfraith yn ein hatal rhag ei dateglu, neu sydd wedi'i heithrio o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, neu y gellir ei hystyried yn briodol fel arall yn wybodaeth na ddylid ei datgelu.
- Gwybodaeth ar ffurf ddrafft.
- Gwybodaeth nad yw ar gael yn hwylus bellach, er enghraifft, ffeiliau archif.

2. Sut rydym yn darparu'r wybodaeth

Mae'r Cyngor yn darparu canllaw i'r wybodaeth sydd ar gael dan y cynllun hwn ar ein gwefan, lle gellir cael mynediad at lawer o wybodaeth hefyd. Cyfeiriad ein gwefan yw www.sirgar.gov.uk

Yn ogystal, gellir cael gwybodaeth sy'n rhan o'r cynllun hwn drwy'r dulliau canlynol:

Dros y ffôn: 01267 234567

Drwy ebost: galw@sirgar.gov.uk

Drwy'r post:

Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

Neu'n bersonol drwy ymweld ag un o'n tair prif Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid:

Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Rhydaman
Neuadd y Dref
Rhydaman
SA18 3BE

Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Caerfyrddin
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
SA31 1LE

Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Llanelli
Tŷ Elwyn
Llanelli
SA15 3AP

Lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan, mae'n bosibl na fydd modd rhoi'r wybodaeth honno i alwyr personol ar unwaith.

Pan fydd angen ymweld â safleoedd y Cyngor i weld gwybodaeth sy'n rhan o'r cynllun hwn, mae ein prif adeiladau cyhoeddus yn darparu mynediad addas i bobl anabl yn unol â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2004.

Yn ogystal, gellir darparu gwybodaeth ar ffurfiau eraill, er enghraifft, print bras neu dâp sain, drwy'r manylion cyswllt sydd ar y dudalen cynnwys yn y cynllun hwn.

Mae'n bosibl y bydd y wybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn ar gael yn yr iaith y cafodd ei pharatoi'n wreiddiol ynddi yn unig.

3. Y taliadau am wybodaeth

Diben y cynllun hwn yw sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael yn rhwydd a hynny drwy beri cyn lleied â phosibl o drafferth a chost i'r cyhoedd.

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chwmpasu gan y cynllun hwn fel arfer ar gael yn ddi-dâl, er enghraifft, ar ein gwefan.

Fodd bynnag, pan fydd yn angenrheidiol darparu llungopïau neu ddeunydd wedi ei argraffu, bydd y Cyngor o bosib yn codi taliadau safonol gan ychwanegu costau postio os bydd angen.

Y canlynol yw'r costau safonol y copi:

- A4 du a gwyn 10c
- A4 lliw 20c
- A3 du a gwyn 20c
- A3 lliw 40c
- A2 50c
- A1 £2.00
- A0 £5.00

Ni fydd y Cyngor yn codi tâl am gopïau os bydd cyfanswm y gost yn llai na £2.00. Mae'r holl daliadau'n cynnwys TAW.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i godi tâl uwch pan fo unrhyw hawl statudol i wneud hynny, neu pan fo dogfennau yn cael eu darparu yn ystod trafodion cyfreithiol.

Mae'n bosib bydd gan rai cyhoeddiadau bris ar y clawr.

Os bydd angen codi tâl, byddwn yn cadarnhau'r tâl dan sylw cyn darparu'r wybodaeth.

4. Os oes gennych gŵyn

Ymdrinnir â chwynion ynghylch y modd y mae'r cynllun hwn yn cael ei roi ar waith yn yr un modd â'r rheiny ynghylch trin ceisiadau am wybodaeth. Dylid anfon y gŵyn yn y lle cyntaf at Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn y cyfeiriad canlynol:

Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

Os byddwch yn dal yn anfodlon ar unrhyw benderfyniad dilynol, mae hawl gennych i apelio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a fydd yn rhoi dyfarniad ar eich cwyn. Dyma'r manylion cyswllt:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Ymdrinnir â phob cwyn arall yn ymwneud â gwasanaethau'r Cyngor dan Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol ar wahân, a Gweithdrefn Gwyno statudol Gofal Cymdeithasol.

5. Ceisiadau am wybodaeth

Gellir gwneud cais am wybodaeth nad yw'n cael ei chyhoeddi drwy'r cynllun hwn o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau o dan y Ddeddf hon ar bapur er bod gennych hawl i wneud cais ar lafar am unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chwmpasu gan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn bosibl, bydd y Cyngor yn rhoi cyngor a chymorth i ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr gyda'u ceisiadau am wybodaeth.

Mae llawer o'r wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn bersonol ac yn breifat i unigolion. Nid yw'r math hwn o wybodaeth wedi'i chwmpasu gan y cynllun cyhoeddi hwn ond mae gan unigolion hawl ar wahân i weld manylion a gedwir amdanynt o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

I gael rhagor o gyngor, cysylltwch â Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data y Cyngor drwy'r manylion ar y dudalen cynnwys ar ddechrau'r cynllun hwn.